Ffurflen fonitro - Arferion gorau (modd i wasanaethau ei haddasu) (CASGLU AR BAPUR/AR LAFAR).

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddor o gyfleoedd cyfartal. Wrth gael darlun clir o broffil cydraddoldeb ein gweithwyr, bydd hi'n bosibl i ni fonitro pa mor effeithiol y mae ein polisïau a'n dulliau gweithredu ni o ran materion cyfleoedd cyfartal. Rydyn ni'n cynnal gwaith monitro er mwyn nodi diffygion o ran mynediad i'n gwasanaethau ni, gan ymateb i hyn trwy wneud newidiadau wedi'u targedu. Caiff data eu defnyddio i wella gwasanaethau ac wrth adrodd yn ôl yn unig. Mae'r rheiny sy'n cymryd rhan yn gwbl rydd i benderfynu a ydyn nhw'n llenwi'r ffurflen yma ai peidio a does dim canlyniadau o beidio â gwneud hynny. Dydyn ni ddim yn bwriadu cadw unrhyw wybodaeth bersonol o'r ffurflen yma a fydd yn datgelu pwy ydych chi. Cofiwch hyn wrth ysgrifennu eich atebion yn y bylchau gwag. Pan rydych chi'n darparu gwybodaeth i ni amdanoch chi'ch hun neu eraill, bydd y Cyngor yn sicrhau y bydd yn cael ei phrosesu yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 2018 a'i defnyddio at ddibenion monitro ac adrodd yn ôl yn unig.

[**PWYSIG:** Rhaid i chi roi hysbysiad preifatrwydd byr eich adran yma, ac yna, cyfeirio at yr hysbysiad llawn sydd ar wefan y Cyngor. Cysylltwch â Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth am ragor o wybodaeth.]

Oedran

- ☐ 16-24
- ☐ 25-34
- ☐ 35-44
- ☐ 45-54
- ☐ 55-64
- ☐ 65-74
- ☐ 75 oed +
- ☐ Gwell gyda fi beidio â dweud

Rhyw

Ydych chi'n:

- ☐ Benyw
- ☐ Gwryw
- ☐ Gwell gyda fi beidio â dweud

Os yw'n well gyda chi ddefnyddio'ch term eich hun, nodwch y term yma:

_____

Bydd cwestiwn am hunaniaeth rhywedd yn cael ei ofyn maes o law.

Hunaniaeth Rhywedd

Ydych chi'n uniaethu'n berson:

- ☐ Anneuaidd
- ☐ Traws
- ☐ Gwell gyda fi beidio â dweud

Os yw'n well gyda chi ddefnyddio'ch term eich hun, nodwch y term yma:
_____

(Mae Traws yn derm cyffredinol i ddisgrifio pobl sydd â rhywedd gwahanol i'r un adeg eu geni, neu bobl sy'n anhapus â'r rhywedd a gafodd ei neilltuo iddyn nhw adeg eu geni)

Cyfeiriadedd Rhywiol

Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch cyfeiriadedd rhywiol orau?

- ☐ Deurywiol
- ☐ Dyn hoyw
- ☐ Menyw hoyw/Lesbiaidd
- ☐ Heterorywiol/Syth
- ☐ Gwell gyda fi beidio â dweud

Os yw'n well gyda chi ddefnyddio'ch term eich hun, nodwch y term yma:
_____

Hunaniaeth Genedlaethol
Sut byddech chi'n disgrifio'ch hunaniaeth genedlaethol?

- ☐ Prydeinig
- ☐ Cernywig
- ☐ Seisnig
- ☐ Gwyddelig
- ☐ Gwyddelig Gogledd Iwerddon
- ☐ Albanaidd
- ☐ Cymreig
- ☐ Arall (rhowch ddisgrifiad): _____
- ☐ Gwell gyda fi beidio â dweud

Ethnigrwydd

Sut byddech chi'n disgrifio'ch grŵp ethnig?

Defnyddiwch y categorïau a'r bylchau isod i nodi eich ethnigrwydd neu darddiad ethnig:

- ☐ Arabaidd
- ☐ Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig
- ☐ Du neu Ddu Brydeinig
- ☐ Sipsiwn
- ☐ Cymysg/Lluosog
- ☐ Roma
- ☐ Sinti
- ☐ Teithiwr/Teithiwr Gwyddelig
- ☐ Gwyn

- ☐ Gwell gyda fi beidio â dweud

Os hoffech chi ddisgrifio eich Grŵp Ethnig ymhellach, neu os yw'n well gyda chi ddefnyddio'ch diffiniad eich hun, rhowch fanylion: _____

Anabledd

Ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?

Fel hyn mae'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) yn diffinio anabledd: '*Amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hir dymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau pob dydd arferol'.*

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Gwell gyda fi beidio â dweud

Crefydd neu gred

Beth yw eich crefydd/cred?

- ☐ Bwdhydd
- ☐ Cristion (gan gynnwys Eglwys Cymru, Catholig, Protestannaidd a phob enwad arall)
- ☐ Hindŵ
- ☐ Iddew
- ☐ Mwslim
- ☐ Anghrefyddol (e.e. Anffyddiwr, Dyneiddiol ac ati)
- ☐ Sikh
- ☐ Gwell gyda fi beidio â dweud

Os nad yw eich crefydd neu gred wedi'i rhestru neu pe hoffech chi ddefnyddio'ch diffiniad eich hun, nodwch hynny yma: _____

Cyfrifoldebau rhoi gofal

Ydych chi'n gofalu am aelodau o'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill (neu'n rhoi cymorth iddyn nhw) oherwydd naill ai: cyflwr/anabledd corfforol neu feddyliol tymor hir, neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint?

- ☐ Nac ydw
- ☐ Ydw, 1-19 awr yr wythnos
- ☐ Ydw, 20-49 awr yr wythnos
- ☐ Ydw, 50 awr neu fwy yr wythnos
- ☐ Gwell gyda fi beidio â dweud

Beichiogrwydd a Mamolaeth

Ydych chi'n feichiog ar hyn o bryd, neu ydych chi wedi bod yn feichiog yn ystod y 12 mis diwethaf?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Gwell gyda fi beidio â dweud

Ydych chi wedi bod ar gyfnod mamolaeth yn ystod y 12 mis diwethaf, neu ydych chi ar gyfnod mamolaeth ar hyn o bryd?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Gwell gyda fi beidio â dweud

Cyn-filwyr a'r Lluoedd Arfog

Ydych chi erioed wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, neu'n gwasanaethu ar hyn o bryd?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Gwell gyda fi beidio â dweud

- ☐ Dydw i ddim eisiau darparu unrhyw wybodaeth y mae gofyn amdani ar y ffurflen yma